**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Christine Chapman AC
Cadeirydd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Christine.Chapman@assembly.wales

23 Chwefror 2016

Annwyl Christine,

**Ymateb drafft i lythyr y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol dyddiedig 27 Ionawr 2016**

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ynghylch yr uchod. Rwy'n ymateb i'r cwestiynau ble yr ydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth fel a ganlyn:

**Gwariant a blaenoriaethu**

Rwy'n atodi'r newyddion diweddaraf ar y rhaglen Fusion fel yr addewais.

**Sector y celfyddydau**

Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor, rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd Cyngor y Celfyddydau ynghylch dyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2016-17, gan ofyn iddynt ddarparu manylion y dyraniadau cyllid ar gyfer eu Sefydliadau Refeniw dros dro cyn gynted â bo modd. Rwy'n deall bod eu dyraniadau yn cael eu penderfynu yn eu cyfarfod â'r Cyngor ar 19 Chwefror, a'u bod yn bwriadu ysgrifennu at y Sefydliadau Refeniw cyn gynted â phosib.

**Amgueddfeydd**

Pryd ydych chi'n bwriadu cyhoeddi eich ymateb i'r adolygiad arbenigol o'r gwasanaethau lleol i amgueddfeydd?

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bu imi gyfarfod â chynrychiolwyr awdurdodau lleol mewn cyfarfod a drefnwyd gan CLILC, ar 4 Chwefror, a chefais eu syniadau a'u hadborth. Roedd y drafodaeth o gymorth a bydd yn llywio fy ymateb, yr wyf yn bwriadu ei gyhoeddi o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Bum yn trafod â Chynghorwyr Lleol ledled Cymru, a ddywedodd eu bod yn deall pwysigrwydd eu hamgueddfeydd, gan nodi rhai o'r problemau oedd yn eu hwynebu wrth symud tuag at agenda ranbarthol. Yn benodol, nodwyd bod gwahanol awdurdodau yn cymeryd agwedd wahanol tuag at ddyfodol eu gwasanaethau diwylliannol. Rwy'n gwybod y gall gweithio rhanbarthol ddod â manteision sylweddol, ond rwy'n derbyn bod llawer o drafod i'w wneud eto. Hoffwn gyhoeddi fy ymateb ffurfiol cyn inni ddechrau ar y cyfnod cyn yr etholiad.

<u>A fyddai'n bosib ichi gadarnhau a oes bwriad defnyddio'r dyraniadau ar gyfer amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd i ddatblygu argymhellion yr adolygiad arbenigol, yn benodol o ran cronfa drawsnewid, a chreu tri corff rhanbarthol i gefnogi amgueddfeydd lleol?</u>

Bydd cyfran o'r dyraniad presennol ar gyfer amgueddfeydd lleol yn cefnogi'r broses o roi'r argymhellion yr ydym yn bwriadu eu datblygu ar waith. Fel a nodwyd uchod, o ran y cyrff rhanbarthol arfaethedig, byddai angen gwneud rhywfaint o waith cwmpasu cyn mynd ymlaen â hyn. Mae'r amserlen ar gyfer hyn yn golygu mai'r Llywodraeth nesaf fydd yn penderfynu ar y cyllid. Bydd y gronfa drawsnewid, os bydd y Llywodraeth newydd yn cytuno arni, yn helpu gwasanaethau lleol i symud tuag at sefydlu systemau cymorth arbenigol rhanbarthol, tra'n parhau i ddarparu amgueddfeydd ar lefel leol. Mae'n bosib datblygu nifer o'r argymhellion yn gyflym, er enghraifft, gwaith sy'n gysylltiedig â chasgliadau a'r siarter, ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddechrau cynllunio'r gwaith hwnnw.

**Yr amgylchedd hanesyddol a naturiol**

<u>i. A fyddai'n bosib ichi nodi sut yr ydych yn bwriadu defnyddio'r gyllideb cyfalaf ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a naturiol?</u>

Mae'r gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a naturiol yn £4.791miliwn. Mae gan y maes hwn o'r portffolio ddwy swyddogaeth benodol – diogelu treftadaeth statudol, a rheoli yr eiddo y gofelir amdanynt:

- Gwasanaethau yr Amgylchedd Hanesyddol – bydd y rhaglen grantiau cyfalaf o £2 filiwn yn helpu i gefnogi perchnogion asedau hanesyddol ledled Cymru i'w cynnal a'u cadw. Bydd y cyllid yn cefnogi: Adeiladau Hanesyddol, Henebion, Cofebau Rhyfel a mentrau Treftadaeth Trefluniau Lleol. Bydd y cymorth grant yn canolbwyntio ar yr asedau hynny sydd mewn mwyaf o berygl, ac/neu ble y cynigir cyfleoedd sylweddol i adfywio'r gymuned;

- Yr Adran Fasnachol & Eiddo – cyllid cyfalaf o £2.791miliwn wedi'i ddyranu fel a ganlyn:

    - £1.1miliwn i gynnal gwaith cadwraeth sy'n flaenoriaeth ar draws 129 eiddo sydd yng ngofal Gweinidogion Cymru, yn bennaf trwsio gwaith carreg hanesyddol, cyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 i gadw, cynnal a chaniatâu i'r cyhoedd gael mynediad diogel;

- £1.091miliwn o fuddsoddiad wedi'i dargedu tuag at ehangu yr hyn sydd ar gael i'r ymwelydd a'r cynnydd yn y gweithgarwch masnachol. Bydd y deg safle uchaf a nodwyd yn yr Adolygiad o Wasanaethau Masnachol yn cael sylw penodol; ac
- £0.6miliwn i ddatblygu a gosod dulliau o ddehongli corfforol a digidol – sydd eto'n cyd-fynd â chanlyniadau'r Adolygiad Masnachol ac yn ehangu'r hyn sy'n cael ei gynnig i'r ymwelydd.

ii. O ystyried eich sylwadau blaenorol nad oes gan nifer o berchnogion adeiladau rhestredig yr adnoddau angenrheidiol i gynnal yr adeiladau hyn, sut fydd y dyraniadau o fewn eich portffolio yn mynd i'r afael â hyn?

Fel a nodwyd uchod, mae arian wedi'i neilltuo ar gyfer grantiau cyfalaf i adeiladau hanesyddol. Fel yn y blynyddoedd diwethaf, bu'r pwyslais ar adeiladau mewn perygl ac adeiladau fydd yn helpu i gynnig blaenoriaethau adfywio.

Mae darpariaethau wedi'u gwneud hefyd o fewn rhaglen waith Cadw i lunio canllawiau fydd yn helpu awdurdodau lleol a pherchnogion adeiladau rhestredig i reoli yn effeithiol. Mae arolygwyr ein hadeiladau hanesyddol ar gael i gynnig cyngor i berchnogion ac/neu awdurdodau cynllunio lleol ar ba mor briodol yw unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar adeiladau hanesyddol.

iii. A gafodd unrhyw asesiadau eu gwneud o ran y gellid defnyddio'r incwm ychwanegol a ddaw o ddigwyddiadau mawr yng Nghymru i liniaru ar ffaith bod cyllid eich portffolio wedi gostwng?

Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr ond maent yn cefnogi'r sefydliadau hynny sydd yn gwneud hynny. O ganlyniad, mae'r incwm sy'n cael ei greu o ganlyniad i gynnal digwyddiad mawr yn cael ei gadw gan berchennog y digwyddiad ac/neu'r trefnydd. Mae o fudd economaidd i Gymru oherwydd y gwario ychwanegol gan yr ymwelydd, creu swyddi a datblygu sgiliau a phroffil rhyngwladol.

**Y Cyfryngau a Chyhoeddi**

Pa ran o'r portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fydd yn cael ei leihau er mwyn darparu cyllid i Gyngor Llyfrau Cymru?

Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru yn cael ei reoli o fewn y gyllideb Sector a Busnes yn Llinell Wariant yn y Gyllideb rhif 3753 (Atebion Busnes).

A yw eich penderfyniad ynghylch cyllid y Cyngor yn dangos eich bwriad o ran cyllidebau yn y dyfodol?

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd Cyngor Llyfrau Cymru i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, ac o ran swyddi, a dyna pam rwyf wedi dileu y gostyngiad i'r gyllideb ar gyfer 2016-17. Fodd bynnag, ni allaf gynnig sylwadau ar y bwriad ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol gan mai'r Llywodraeth newydd fydd yn penderfynu ar gyllidebau Cyngor Llyfrau Cymru yn y dyfodol.

**Chwaraeon a gweithgarwch corfforol**

Pam ydych chi wedi penderfynu lleihau dyraniadau refeniw ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol 5.3% (o ran arian), tra bo'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol wedi cynyddu?

Mae'r gyllideb ar gyfer Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ei lleihau yn y Gyllideb Ddrafft, ac felly bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Mae hyn wedi arwain at leihad yn y swm yr ydym yn ei gyfrannu o'r portffolio hwn at chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Fodd bynnag, fel y dywedais yn y Pwyllgor, mae'r swm yr ydym yn ei dyrannu i Chwaraeon Cymru yn rhan cymharol isel o gyfanswm y cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae oddeutu £153 miliwn y flwyddyn yn cael ei wario gan awdurdodau lleol ar wasanaethau chwaraeon a hamdden, ac mae cyllidebau llywodraeth leol yn cael eu diogelu i raddau, fydd yn helpu i ddiogelu'r cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Pa asesiadau ydych chi wedi'u gwneud o effaith y gostyngiadau hyn i'r gyllideb?

Mae Chwaraeon Cymru yn ystyried pa feysydd fydd yn gweld gostyngiad i'w cyllideb. Bydd rhai o'r gostyngiadau yn dod o weithio'n fwy effeithlon o fewn y sefydliad, ond ble y gwelir bod effaith ar fuddsoddiadau mewn sefydliadau partneriaid, bydd rhain yn amrywio gan ddibynnu ar ba ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael iddynt. Bydd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gwblhau fel rhan o'r broses o asesu a phenderfynu.

Nid y swm yr ydym yn ei wario yw'r brif broblem ond pa mor effeithiol yr ydym yn ei wario. Yr hyn sy'n bwysig iawn yw ein bod yn sicrhau canlyniadau gwell drwy fuddsoddi mewn chwaraeon cymunedol a'n bod yn sicrhau bod y cymeryd rhan sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn chwaraeon yn troi'n arferion gweithgarwch corfforol am oes, ac yn gyfleoedd i wella llesiant a iechyd pobl a chymunedau. Rydym yn ymwybodol o'r Arolwg o Oedolion Egnïol bod anghydraddoldebau o hyd o ran y nifer sy'n cymeryd rhan mewn chwaraeon. Bydd pob un o bartneriaid Chwaraeon Cymru yn parhau i gael eu herio i sicrhau bod eu cynlluniau yn cynnwys gweithredu'n bositif i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effeithiolrwydd yr amrywiol gynlluniau/gweithgareddau sydd wedi'u sefydlu o ganlyniad i gydweithio rhyngddoch chi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol?

Bydd gwerthusiad yn rhan o rai cynlluniau penodol. Fel rhan o waith y Grŵp Gweithredu Gweithgarwch Corfforol ar weithgarwch corfforol, bydd effeithiolrwydd y cynlluniau presennol a'r ymyriadau yn llywio yr argymhellion y mae'r Cyfarwyddwr Rhaglenni Gweithgarwch Corfforol yn eu datblygu.

A oes unrhyw drefniadau wedi'u gwneud i gasglu gwybodaeth am y buddsoddiad ariannol a ddarparwyd gan y cyfranwyr mwyaf i chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru? Os nad oes, a fyddech cystal â threfnu hyn?

Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd, er ein bod yn ymwybodol o'r buddsoddiad gan randdeiliaid megis awdurdodau lleol. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei ystyried.

Yn fwy cyffredinol, pa seilwaith sydd wedi'i drefnu yng Nghymru i roi cymorth i glybiau a chymdeithasau chwaraeon llai i helpu i'w datblygu? A yw Llywodraeth Cymru yn arolygu hyn?

Mae Chwaraeon Cymru yn darparu cyllid drwy amrywiol gynlluniau grant, megis Cist Gymunedol, i gefnogi clybiau a chymdeithasau chwaraeon. Mae'r cyllid y mae Chwaraeon Cymru yn ei ddarparu i awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol hefyd yn cefnogi'r seilwaith chwaraeon, y mae clybiau yn elfen hanfodol ohonynt. Hefyd, mae sefydliadau fel Cymdeithas Chwaraeon Cymru, sy'n derbyn cyllid gan Chwaraeon Cymru, yn darparu amrywiol fentrau ac arferion da mewn meysydd fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu plant a rheoli risg.

Allwch chi gadarnhau y byddwch yn cyhoeddi canlyniadau gwerthusiad y cynllun benthyca cyfalaf?

Mae'r gwerthusiad sydd wedi'i gwblhau hyd yma yn gysylltiedig â'r broses weinyddol yn unig ac yn cael ei defnyddio'n fewnol i asesu ble y gellid gwneud gwelliannau i ymarferion tebyg yn y dyfodol. Nid wyf wedi cyhoeddi canlyniadau'r broses ymgeisio eto, ond bydd y cynlluniau fydd yn mynd ymlaen yn cael eu gwerthuso maes o law o ran effaith a chanlyniadau.

Yn gywir

Ken

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism